## RHYBUDD o Benderfyniadau Cyfarfod Y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Swyddfeydd y Cyngor, Llangefni, ddydd Llun 23 Mawrth, 2020

Cyhoeddir y Rhybudd hwn am 5:00pm ar ddydd Iau, 26 Mawrth, 2020. Rhaid cyflwyno unrhyw geisiadau i alw i mewn unrhyw benderfyniad i'r Prif Weithredwr erbyn dim hwyrach na 5:00pm ar ddydd Iau, 2 Ebrill, 2020. Daw'r penderfyniadau i rym (os na fydd yna gais dilys i'w galw i mewn) ar ddydd Gwener, 3 Ebrill, 2020.

**Presennol**: Y Cynghorwyr R Dew, Llinos Medi Huws (Cadeirydd) , Ieuan Williams a Robin Williams

**Hefyd yn bresennol**: Y Cynghorydd Aled Morris Jones

**Ymddiheuriadau**: Y Cynghorwyr Cynghorydd R.Meirion Jones, R G Parry OBE FRAgS, Dafydd Rhys Thomas, Alun W Mummery a Carwyn Jones

(10:00 y. b. tan 10:35 y. b)

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **3 Cofnodion**<br>Amherthnasol |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd cadarnhau fel rhai cywir, gofnodion cyfarfodydd blaenorol y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar y dyddiadau canlynol –**<br><br>• **17 Chwefror, 2020**<br>• **2 Mawrth, 2020** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Amherthnasol** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Amherthnasol** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **4 Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith**<br>Adroddiad gan Bennaeth y Gwasanaethau Democrataidd |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd cadarnhau Blaen Rhaglen Waith y Pwyllgor Gwaith wedi'i diweddaru am y cyfnod Ebrill i Dachwedd, 2020 fel y'i chyflwynwyd.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **I gryfhau atebolrwydd a threfniadau** |

| | |
|---|---|
| | **cynllunio ymlaen llaw** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Oes** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **5 Monitro'r Cerdyn Sgorio - Chwarter 3 2019/20**<br>Adroddiad gan y Pennaeth Proffesiwn (AD) a Thrawsnewid |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd nodi'r meysydd mae'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth yn eu rheoli er mwyn sicrhau gwelliannau i'r dyfodol a derbyn y mesurau lliniaru sy'n cael eu hamlinellu yn yr adrdoddiad.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **I adnabod meysydd sy'n tanberfformio** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Oes** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **6 Datblygu Darpariaeth Hamdden ar gyfer Cenedlaethau'r Dyfodol**<br>Adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaeth (Rheoleiddio a Datblygu Economaidd) Dros Dro |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd mabwysiadu'n ffurfiol y fersiwn ddrafft o'r Cynllun Datblygu Darpariaeth Hamdden ar gyfer Cenedlaethau'r Dyfodol.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Er mwyn bwrw ymlaen gyda rhaglen strwythuredig o fuddsoddiad yng nghyfleusterau hamdden yr Ynys** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Oes** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **7 Protocol Siarad Cyhoeddus mewn Pwyllgorau Sgriwtini**<br>Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd argymell i'r Cyngor Llawn bod y Protocol Siarad Cyhoeddus mewn Pwyllgorau Sgriwtini ynghlwm yn Atodiad 1 yr adroddiad yn cael ei fabwysiadu a'i fod yn cael ei gynnwys** |

| | |
|---|---|
| | **yng Nghyfansoddiad y Cyngor.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **I wneud argymhelliad i'r Cyngor Llawn ar fabwysiadu'r Protocol Siarad Cyhoeddus mewn Pwyllgorau Sgriwtini** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Na. Mae mabwysiadu'r Protocol yn fater i'r Cyngor Llawn** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **8 Adroddiad Cynnydd y Panel Gwasanaethau Cymdeithasol**<br>Adroddiad gan Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd cadarnhau bod y Pwyllgor Gwaith yn fodlon â chyflymder y cynnydd a'r gwelliannau a wnaed hyd yma yn y Gwasanaethau Oedolion a'r Gwasanaethau Plant a Theuluoedd.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Monitro cynnydd y gwelliannau yn y Gwasanaethau Cymdeithasol** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Oes** |

## EITEM GYFRINACHOL

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **10 Gorchymyn Pryniant Gorfodol ar gyfer Clwb Chwaraeon a Chymdeithasol Biwmares**<br>Adroddiad gan Bennaeth y Gwasanaethau Tai |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd -**<br>• **Awdurdodi pryniant gorfodol yr hen Glwb Chwaraeon a Chymdeithasol, Steeple Lane, Biwmares fel y nodir ef ar y cynllun yn Atodiad 1 yr adroddiad a hynny o dan Adran 17 o Ddeddf Tai 1985 (Caffael Tir i Ddibenion Tai) er mwyn darparu cynllun tai fforddiadwy.**<br>• **Dirprwyo awdurdod i'r Pennaeth Gwasanaethau Tai gymryd pob cam sy'n angenrheidiol i sicrhau** |

| | |
|---|---|
| | gorchymyn prynu gorfodol a breinio teitl yn y Cyngor.<br>• Dirprwyo awdurdod i'r Pennaeth Gwasanaethau Tai mewn ymgynghoriad â'r Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol, i setlo'r holl iawndal sy'n daladwy o ganlyniad i'r gorchymyn.<br>• Awdurdodi datblygu tai fforddiadwy ar y safle ar ôl caffael y safle yn amodol ar sicrhau'r caniatad cynllunio priodol ac ar yr amod hefyd fod y prosiect yn hyfyw. |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **I awdurdodi pryniant gorfodol yr hen Glwb Chwaraeon a Chymdeithasol, Steeple Lane, Biwmares** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Oes** |